

Deddf Tiroedd Comin 2006: Atodlen 2

Cais i gywiro achos o beidio â chofrestru neu gam-gofrestru tir comin

Dylai ymgeiswyr ddarllen "Canllaw i Reoliadau Deddf Tir Comin 2006 (Cywiro, Tir Comin Heb ei Gofrestru neu Dir Comin a Gam-gofrestrwyd) (Cymru) 2017: Canllawiau i Ymgeiswyr" a dylent hefyd nodi:

- Caiff unrhyw un wneud cais o dan adran 2 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006.
- Dylai pob ymgeisydd lenwi blychau 1–10.
- Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn dyddiad cau penodol. Ni cheir cyflwyno unrhyw geisiadau pellach ar ôl y dyddiad hwnnw. Dylech ofyn i'r awdurdod cofrestru am fanylion.
- Bydd gofyn ichi dalu ffi oni bai bod eich cais yn cael ei gyflwyno o dan baragraffau 2, 3, 4 neu 5 o Atodlen 2. Dylech ofyn i'r awdurdod cofrestru am fanylion. Bydd yn rhaid ichi dalu ffi arall os yw'ch cais yn ymwneud ag unrhyw un neu rai o baragraffau 6 i 9 o Atodlen 2 ac os bydd yn cael ei gyfeirio at yr Arolygiaeth Gynllunio.

At ddefnydd y swyddfa'n unig y mae'r adran hon.

Stamp swyddogol

Rhif y Cais

Y rhif a roddwyd i'r uned gofrestr adeg cofrestru

1. Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin

Nodwch enw'r awdurdod cofrestru tiroedd comin.

At:

Ticiwch un o'r blychau isod i gadarnhau eich bod:

wedi amgáu'r ffi briodol
ar gyfer y cais hwn

neu

wedi gwneud cais o dan baragraff 2,
3, 4, neu 5, felly nad ydych wedi amgáu ffi:

2. Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd

Os oes mwy nag un ymgeisydd, dylech nodi enwau a chyfeiriadau pob un ohonynt yn llawn. Gallwch ddefnyddio dalen ar wahân os bydd angen. Nodwch deitl llawn y sefydliad neu'r busnes os ydych yn gwneud cais ar ran corff o'r fath. Os byddwch yn nodi cyfeiriad e-bost yn y blwch priodol, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod cofrestru neu bobl eraill (e.e. gwrthwynebwyr) yn cysylltu â chi drwy'r e-bost. Os na fydd blwch 3 yn cael ei lenwi, bydd unrhyw ohebiaeth a hysbysiadau yn cael eu hanfon at yr ymgeisydd cyntaf.

Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

3. Enw a chyfeiriad eich cynrychiolydd, os oes un:

Dylech lenwi'r blwch hwn os ydych wedi gofyn i gynrychiolydd, e.e. cyfreithiwr, ymdrin â'r cais ar eich rhan. Os ydych, bydd yr holl ohebiaeth a hysbysiadau yn cael eu hanfon at yr unigolyn neu'r sefydliad / busnes a enwir yma. Os byddwch yn nodi cyfeiriad e-bost yn y blwch priodol, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod cofrestru neu bobl eraill (e.e. gwrthwynebwyr) yn cysylltu â'r cynrychiolydd drwy'r e-bost.O

Enw / Sefydliad:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

4. Y rheswm dros eich cais i gywiro'r gofrestr a'r meini prawf cymhwyster

I gael rhagor o fanylion am y gofynion sy'n gysylltiedig â chais, dylech gyfeirio at Atodlen 1 i Reoliadau Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cywiro, Tir Comin Heb ei Gofrestru neu Dir Comin a Gam-gofrestrwyd) (Cymru) 2017

Ticiwch un o'r blychau isod i ddangos at ba ddiben yr ydych yn gwneud cais o dan Atodlen 2 i Ddeddf Tiroedd Comin 2006.

Cofrestru tir yn dir comin (paragraff 2)

Cofrestru tir yn faes tref neu bentref (paragraff 3)

Cofrestru tir diffaith maenor yn dir comin (paragraff 4)

Datgofrestru tir comin yn faes tref neu bentref (paragraff 5)

Datgofrestru adeilad a gofrestrwyd yn anghywir yn dir comin (paragraff 6)

Datgofrestru unrhyw dir arall a gofrestrwyd yn anghywir yn dir comin (paragraff 7)

Datgofrestru adeilad a gofrestrwyd yn anghywir yn faes tref neu bentref (paragraff 8)

Datgofrestru unrhyw dir arall a gofrestrwyd yn anghywir yn faes tref neu bentref (paragraff 9)

Yn achos tir diffaith maenor (paragraff 4), ticiwch un o'r blychau isod i nodi pam y cafodd y cofrestrriad dros dro ei ddileu.

Gwrthododd y Comisiynydd Tiroedd Comin gadarnhau'r cofrestrriad ar ôl penderfynu nad oedd y tir bellach yn rhan o faenor (paragraff 4(3))

Roedd y Comisiynydd Tiroedd Comin wedi penderfynu nad oedd y tir yn dod o dan hawliau comin ond ni wnaeth ystyried a oedd yn dir diffaith maenor (paragraff 4(4))

Gofynnodd yr ymgeisydd i'r cais gael ei ddileu neu cytunodd i wneud hynny (naill ai cyn neu ar ôl iddo gael ei gyfeirio at Gomisiynydd Tir Comin) (paragraff 4(5))

Nodwch rif neu rifau'r uned gofrestr (oes oes rhai) y mae'r cais hwn yn ymwneud â nhw:

5. Disgrifiad o'r rheswm dros wneud cais i gywiro'r gofrestr

Esboniwch pam y dylai'r tir gael ei gofrestru neu ei ddatgofrestru

6. Disgrifiad o'r tir

Rhaid ichi ddarparu map Ordnans o'r tir sy'n berthnasol i'ch cais. Rhaid dangos yr arwynebedd perthnasol drwy roi llinellau ar ei draws gan ddefnyddio lliw amlwg (e.e. coch) i wneud hynny. Rhaid i'r map fod ar raddfa o 1:2,500 man lleiaf, neu 1:10,000 os yw'r tir i gyd, neu'r rhan fwyaf ohono, yn rhostir. Dylech roi cyfeirnod grid neu fanylyn arall sy'n fodd i'w adnabod.

Enw arferol y tir:

Lleoliad:

Ticiwch y blwch i gadarnhau eich bod wedi atodi map Ordnans o'r tir

7. Datganiadau cydsyniad

Gall y rhain gynnwys unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig a anfonir at yr ymgeisydd (h.y. llythyr), ac unrhyw ddatganiad o'r fath a wneir ar y ffurflen ei hun. Os yw'ch cais yn ymwneud â chofrestru tir comin neu faes tref neu bentref ac os oes adeilad ar ran o'r tir neu os yw o fewn cwrtil adeilad, bydd angen ichi gael cydsyniad y perchennog.

8. Dogfennau ategol

Rhestrwch yr holl ddogfennau a mapiau sy'n cael eu cyflwyno gyda'r cais, gan gynnwys unrhyw gydsyniadau ysgrifenedig, os yw hynny'n berthnasol. Bydd y dogfennau hynny'n cynnwys copi o unrhyw ddeddfiad perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraffau 2(2)(b) neu 3(2) (a) o Atodlen 2 i Ddeddf Tiroedd Comin 2006 neu, mewn perthynas â pharagraff 4 (tir diffaith maenor), dystiolaeth sy'n dangos pam y cafodd y cofrestriad dros dros ei ddileu. Nid oes angen cyflwyno copïau o ddogfennau a gyhoeddwyd gan yr awdurdod cofrestru neu ddogfennau yr oedd yn barti iddynt, ond mae dal angen ichi eu rhestru. Gallwch ddefnyddio dalen ar wahân os bydd angen

9. Unrhyw wybodaeth arall sy'n gysylltiedig â'r cais

Rhestrwch unrhyw faterion eraill y dylid eu dwyn at sylw'r awdurdod cofrestru (yn enwedig os disgwylir i unigolyn sydd â diddordeb yn y tir herio'r cais i'w gofrestru). Dylech roi manylion llawn yma neu ar ddalen ar wahân os bydd angen

10. Llofnod

Rhaid i'r cais gael ei lofnodi gan bob ymgeisydd unigol, neu gan y swyddog a awdurdodwyd i wneud hynny ar ran corff (sefydliad / busnes)

Llofnodion:

Dyddiad:

NODYN I ATGOFFA'R YMGEISYDD

Eich cyfrifoldeb chi yw dweud y gwir wrth gyflwyno'r cais a'r dystiolaeth gysylltiedig. Mae'n bosibl y byddwch yn cyflawni trosedd os byddwch, o fwriad, yn darparu tystiolaeth gamarweiniol neu anwireddus, ac os gwnewch chi hynny, mae'n bosibl y cewch eich erlyn. Dylech gadw copi o'r cais a'r holl ddogfennau cysylltiedig.

Deddf Diogelu Data 1998: Ni ellir trin y cais nac unrhyw sylwadau a ddaw i law yn gyfrinachol. Er mwyn penderfynu ar y cais, bydd gofyn i'r awdurdod cofrestru tiroedd comin ddatgelu gwybodaeth a gafodd oddi wrthyhych i unigolion a chyrrff eraill. Gallai'r rheini gynnwys awdurdodau lleol eraill, Adranau'r Llywodraeth, cyrff cyhoeddus, sefydliadau eraill a'r cyhoedd.

Mae'n bosibl y bydd copi o'r ffurflen hon ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig yn cael eu datgelu os ceir cais am wybodaeth o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 neu Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.